266

CYNGOR CYMDEITHAS LLANFACHRAETH
COFNODION CYFARFOD TACHWEDD 26ain 2019
A GYNHALIWYD YN FESTRI CAPEL PONT YR ARW LLANFACHRAETH.

PRESENNOL.
Cyng Mrs E J Bryant (Cadeiryddes) B Rowlands (Is-Gadeirydd) ~~W S Roberts~~ I G Evans, M Woodward, W G Roberts, Mrs D Hughes (Cyfiethyddes) ar Clerc D Owen.

YMDDIHEURIADAU. Cyng Sirol J Griffith.

CYNGHORWYR YN DATGAN DIDDORDEB. A FFURFLEN I`W ARWYDDO. Neb.

COFNODION 29ain HYDREF 2019 YN GYWIR. Cafwyd y cofnodion yn gywir. Cynnig Cyng M Woodward eilio Cyng B Rowlands.

CODI O`R COFNODION.
Cae Chwarae. Cyng B Rowlands yn dweud y buasai codi y matiau rwber ai symud yn codi o gwmpas £900.00 yn cynnwys TAW. Ond ni fydd yn costio dim i`r Cyngor oherwydd mae ganddo gysylltiad i wneud y gwaith yn ddi dal. Y Cyngor yn derbyn a gwneud y gwaith yn fuan Cynnig Cyng M Woodward, eilio Cyng I G Evans.

Dal i ddisgwyl am ymateb gan Bragdy Lees, perchnogion Holland, Llanfachraeth i gael gosod Diffibrilydd.

Cysgodfan Bws yn Llanfachraeth. (Ger Garej Wynnstay) Gwaith heb ddechrau.

CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990.

1. FPL2019/278. Cais llawn ar gyfer dymchwel adeiladau Ysgol presennol a codi anned ynghyd a creu mynedfa i gerbydau ar dir yn:-
   Ysgol Gymuned, Llanfachraeth.
   Cafwyd trafodaeth amser yn ol ynghylch a hyn. Y Cyngor yn dymuno cael adeilad cymysg 4 bynglo a 4 o dai. Cynnig Cyng I G Evans, eilio Cyng W G Roberts.

PENDERFYNIADAU.

2. Dim.

GOHEBIAETH. CYNGOR SIR YNYS MON

3. Swyddfa Etholiadol.
   Arddangos Rhybuddion. Derbyn a cyd weithredu.

4. Uwch Archifydd.
   Archifau Ynys Mon. Edrych a oes gan y Cyngor Cymdeithas unrhyw gofnodiadau o werth hanesyddol ac yn dymuno eu rhoi ar gadw gyda`r gwasanaeth archifau yn Llangefni.
   O ddiddordeb:- Cofnodion. Etholiadau ac apwyn tiadau. Cofnodion Ardrethu ac Ariannol. Elusennau. Cofnodion Eiddo. Gweinyddu Claddu / Mynwent. Priffyrdd / Llwybrau Troed. Mapiau a Chynlluniau. Derbyn a gadael. Unfrydol.

5. Swyddog Prosiect AHNE.
   Peiriannau dwr i ail-lenwi poteli. Wedi cael arian gan Llywodraeth Cymru tuag at brynu a gosod peiriannau dwr i ail-lenwi poltelí mewn lleoliadau strategol ar hyd/ger y llwybr arfordirol/AHNE. A oes gan ein Gymuned ddiddordeb. Cynnig Cyng M Woodward, eilio Cyng W G Roberts i gael cyfarfod.

GOHEBIAETH ARALL.

6. Pro-Forma i Banel Annibynol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Clerc wedi ymateb dim syn berthnasol. Derbyn.

7. Bin Baw Cwn Llanfachraeth.
   Mrs Debby Dawson yn edrych a ydw yn bosib cael binniau yn y pentref.
   Y Clerc wedi cydnabod ac wedi anfon copi o'r e bost i'r Cyngor Sir.
   Mae Mr Joseph A Jones Rheoli Gwastraff y Cyngor Sir angen mwy o wybodaeth gan Mrs Dawson.
   Mae y Rheoli Gwastraff yn dweud beth all y Cyngor Sir ei wneud.
   Cael symud y bin sydd yn y Gymuned i'r fan sydd a problem.
   Neu y Cyngor Cymdeithas dalu am fin newydd i gael ei wagio yn ddyddiol o gwmpas £200 i £300.
   Ni all y Cyngor gyfiawnhau y gost. Disgwyl am ymateb Mrs Dawson. Unfrydol.

8. Clercod a Cynghorau Uniongyrchol. Cylchgrawn. Derbyn.

9. Miss M M Jones. Diolch am arian tuag at y Cofio. Derbyn.

10. Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru). Y Gweinidog yn gwneud datganiad deddfwriaethol yn y cyfarfod llawn. Derbyn.

11. Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: Cymru Fwy Cyfartal – Cychwyn y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithiasol. Derbyn y wybodaeth dim sylw.

12. Medrwn Mon. Cyfarfod Blynyddol 18ed Rhagfyr 2019 Neuadd y Dref, Llangefni. Gadael.

RHODDION.

13. Dim.

PLWYFOL.

14. Dim.

MATERION ARIANNOL.

15. RHEDEGOL. £3,488.61.

16. CYNILO. £3,226.50

17. I'W TALU.
    Clerc £200.00. (2 Fis) Mrs D Hughes £35.00. (Cyfieithu) Menter Mon (Offer Cyfieithu) £25.00. Treth Incwm 3. £75.00. Swyddfa Archwilio Cymru (Awdit) £303.30.

Derbyn y balans a'r dyledion i gyd. Cynnig Cyng B Rowlands, eilio Cyng M Woodward.

28/1/20